**COFNODION LGH-02-03 (min)**

**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**Dyddiad: DYDD MERCHER 29 IONAWR 2002**

**Amser: 09.30am - 12.30pm**

**Lleoliad: YSTAFELL BWYLLGORA 2, ADEILAD Y CYNULLIAD CENEDLAETHOL**

**Yn bresennol:**

*Aelodau*

| | |
|---|---|
| Gwenda Thomas (Cadeirydd) | Castell-nedd |
| Peter Black | Gorllewin De Cymru |
| William Graham | Dwyrain De Cymru |
| Edwina Hart (Gweinidog) | Gwyr |
| Pauline Jarman | Canol De Cymru |
| Peter Law | Blaenau Gwent |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru |
| Tom Middlehurst | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Janet Ryder | Gogledd Cymru |

*Yn bresennol*

| | |
|---|---|
| John Bader | Cyfarwyddwr Tai |
| Geoff Marlow | Y Gyfarwyddiaeth Dai |
| Maureen Haire | Y Gyfarwyddiaeth Dai |

| | |
|---|---|
| Phillip Morgan | Cyfarwyddwr, Sunpipe |
| Mario Breeze | Cyfarwyddwr, Sunpipe |
| Phil White | Pwll Glo'r Twr |
| Graham Lewis | Pwll Glo'r Twr |
| Jane Hegginbotham | Ffederasiwn y Masnachwyr Glo a'r Gymdeithas Tanwydd Solet |

*Ysgrifenyddiaeth*

| | |
|---|---|
| Roger Chaffey | Clerc |
| Claire Griffiths | Dirprwy Glerc |
| Debra Carter | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |

**<u>9.30am hyd 9.35am</u>**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.
2. Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod cyfarfod ychwanegol wedi'i drefnu ar 6 Chwefror i ystyried adroddiad drafft yr adolygiad polisi. Cytunwyd y byddai'r cyfarfod yn cychwyn am 1.30pm. Ychwanegodd y byddai Pwyllgor Rhanbarth y De Orllewin hefyd yn ystyried yr adolygiad polisi yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr ac y byddai unrhyw faterion a fyddai'n codi yn y cyfarfod hwnnw'n cael eu bwydo i'r adolygiad.
3. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n gofyn i'r Pwyllgor gymeradwyo'r cofnodion ar ddechrau'r cyfarfod o heddiw ymlaen, ond eglurodd mai newid gweinyddol yn unig oedd hwn ac na fyddai modd cynnal trafodaethau hir ar faterion sy'n codi. Felly, cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Ionawr, LGH-01-03(min). Cododd Janet Ryder bwynt ynghylch paragraff 3.2 y cofnodion. Dywedodd iddi ddeall y byddai'r Gweinidog yn cyflwyno papur yn amlinellu amserlen i ddangos sut y byddai'r Cynulliad yn mynd i'r afael â'r materion y mae'r Pwyllgor cyfan wedi'u croesawu. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r papur ar gael ar gyfer y

cyfarfod nesaf.

1.4 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â Rheol Sefydlog 4.5.

Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

**9.35am hyd 10.18am**

**Eitem 2: Adroddiad y Gweinidog**

**LGH-02-03(p.1) Atodiad A, Atodiad 1, Atodiad 2**

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei phapur a thynnodd sylw at y materion a ganlyn:

- Ad-drefnu Gwasanaeth Prawf (De Cymru) – Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi cwrdd â chynrychiolwyr ardal De Cymru ar 27 Ionawr ac y bydd y Pwyllgor yn clywed tystiolaeth oddi wrthynt ynghylch yr ad-drefnu yn y cyfarfod nesaf. Ychwanegodd ei bod wedi ysgrifennu at Hilary Benn AS, yr Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn y Swyddfa Gartref, i fynegi ei hanfodlonrwydd nad oeddynt wedi ymgynghori â'r Cynulliad Cenedlaethol ynghylch yr ad-drefnu, na rhoi gwybod iddo amdano, ac i ofyn am fwy o eglurhad. Dywedodd y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor pan fyddai'n cael ateb.

- Pensiynau ar gyfer Aelodau awdurdodau lleol – Dywedodd y Gweinidog fod Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn diwygio Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, er mwyn rhoi grym i'r Cynulliad wneud rheoliadau a fydd yn caniatáu i gynghorau benderfynu a yw cynghorwyr yn gymwys i gael pensiynau. Cyn cyflwyno rheoliadau o'r fath, mae'n rhaid gwneud rheoliadau yn Senedd y DU dan Ddeddf Blwydd-dâl 1972, a hynny er mwyn caniatáu i gynghorwyr ymuno â chynlluniau pensiwn. Pan gaiff y rheoliadau eu gwneud yn Senedd y DU, bydd modd i'r Cynulliad wneud rheoliadau a fydd yn galluogi cynghorau i gynnig cynlluniau pensiwn i'w haelodau. Y bwriad yw rhoi'r ddeddfwriaeth ar waith erbyn i'r cynghorwyr newydd gael eu hethol yn 2004. Dywedodd y byddai'n rhoi adroddiadau ar hyn yn ôl y galw.

- Cyfarfod Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu– Cyfarfu'r Gweinidog ag Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu ar 27 Ionawr. Yn ystod y cyfarfod hwnnw, bu'n trafod pryder yr Undeb ynghylch nifer o faterion, gan gynnwys dyfodol canolfannau post Abertawe a Chaerdydd a diffyg buddsoddiad traddodiadol y Post Brenhinol yng Nghymru. Ychwanegodd bod yr Undeb yn dal i bryderu ynghylch dyfodol canolfannau post Abertawe a Chaerdydd ac roedd yn bwriadu mynd i'r afael â'r materion hyn a rhoi adroddiad arnynt.

- Cyn cyflwyniad Pwll Glo'r Twr, rhoddodd wybod i'r Aelodau ei bod wedi cwrdd â Tyrone

O'Sullivan ar 21 Ionawr i drafod defnyddio glo mewn ardaloedd gwledig. Roedd yn bwriadu comisiynu mwy o waith i werthuso ffyrdd o gynnwys tanwydd solet yn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Ychwanegodd ei bod am sicrhau bod pob darparwr ynni yn gweithredu o dan yr un amodau.

1. Dyma sylwadau'r Aelodau:

- Croesawyd safbwynt y Gweinidog o ran ad-drefnu Gwasanaeth Prawf y De. Gofynnwyd iddi ystyried dyfodol y Timau Troseddwyr Ifanc.
- Cydnabuwyd gwaith y Gweinidog o ran pensiynau i aelodau etholedig. Fe'i holwyd ynghylch tâl ar gyfer aelodaeth ddeuol (o brif gyngor a chyngor cymuned) ac ynghylch y cynllun ymadael.
- Mynegwyd pryder nad oedd postfeistri wedi cael manylion ynghylch Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post tan yn ddiweddar. Nodwyd bod rhai postfeistri wedi dweud y byddent yn cynnal trafodaethau ar ran cleientiaid a oedd am ddal ati i gael eu pensiynau/budd-daliadau o'r swyddfa bost, ac nad oedd hyn wedi cael llawer o gyhoeddusrwydd. Awgrymwyd y byddai modd gwahodd Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor.
- Rheoliadau swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol – gofynnwyd i'r Gweinidog egluro'r swyddogaethau gweithredol.
- Cymeradwyaeth credyd atodol ar gyfer ardaloedd adnewyddu – gofynnwyd i'r Gweinidog amlinellu'r ffordd y dyrannwyd y grantiau.
- Timau gweithredu cyffuriau ac alcohol – gofynnwyd am sicrwydd na fyddai'r gwaith ailstrwythuro yn amharu ar yr arferion da a'r arfer o gydweithio a oedd eisoes ar waith. Gofynnwyd i'r Gweinidog ddweud pryd y byddai gwell triniaethau adsefydlu ar waith.
- Partneriaethau Atal Troseddu – gofynnwyd am sicrwydd y byddai'r partneriaethau'n dal i gael eu hariannu a holwyd a fyddai modd trosglwyddo'r arian na chaiff ei wario i'r flwyddyn ariannol nesaf.
- Croesawyd y newydd diweddaraf ynghylch *atgasedd hiliol*. Gofynnwyd i'r Gweinidog a oedd wedi ystyried unrhyw gynlluniau i amddiffyn mannau addoli sy'n dargedau cynyddol ar gyfer troseddau o'r fath.
- O ran Cymunedau yn Gyntaf, gofynnwyd i'r Gweinidog ddarparu gwybodaeth ynghylch y partneriaethau a sefydlwyd hyd yma, ynghyd â rhestr o'u haelodau. Fe'i holwyd hefyd a fyddai modd darparu cofnodion presenoldeb. Gofynnwyd i'r Gweinidog ddatgan pa gyfran o gyllideb Cymunedau yn Gyntaf sy'n cael ei gwario ar gyflogau a chostau gweinyddol.
- Mynegwyd pryder ynghylch y Mesur Trwyddedu a'i oblygiadau i'r awdurdodau pan gaiff ei roi ar waith. Trafodwyd y ffaith na fyddai aelodau etholedig yn gymwys i benderfynu ynghylch ceisiadau a fyddai'n ymwneud â'u hardaloedd. Cyfeiriodd yr Aelodau unwaith eto at y syniad o wahodd bragdy pwysig i ddod i'r Pwyllgor a rhoi tystiolaeth ynghylch eu polisïau marchnata.
- Gofynnwyd i'r Gweinidog ailystyried mater y codau post. Mewn rhai ardaloedd, mae codau post yn awgrymu bod perygl llifogydd, er nad oes perygl. Mae hyn yn effeithio ar

yswiriant tai.

- Gofynnwyd iddi gadarnhau a oedd wedi llofnodi Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.

1. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog:

- Byddai'n rhoi'r newydd diweddaraf ynghylch y Timau Troseddwyr Ifanc yn eu hadroddiad ysgrifenedig nesaf.
- O ran aelodaeth ddeuol, ni thelir lwfans ar gyfer dyletswyddau a wneir ar ran cyngor cymuned yn y gymuned honno, ond ad-delir costau teithio aelodau pan fyddant yn gwneud gwaith cyngor cymuned. Roedd cynghorau cymuned wedi mynegi pryder y byddai'n rhaid i bobl a oedd yn aelodau o gynghorau cymuned a phrif gynghorau roi'r gorau i fod yn gynghorwyr cymuned pe na chaent eu talu am y dyletswyddau hynny. Dywedodd y byddai'n ysgrifennu at Peter Law ynghylch goblygiadau'r rheoliadau newydd.
- O ran Cronfa Datblygu Swyddfa'r Post, dywedodd y byddai'r swyddogion yn gwneud ymholiadau ac yn rhoi adroddiad arni.
- Dywedodd bod Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu wedi gwrthod gwahoddiad i ddod i un o gyfarfodydd y Pwyllgor y tymor diwethaf. Awgrymodd y dylid ystyried ei wahodd unwaith eto.
- O ran rheoliadau swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, dywedodd bod disgwyl i'r ymarfer ymgynghori ddod i ben ddiwedd mis Mawrth a'i fod yn ymwneud yn bennaf â materion technegol. Ychwanegodd y byddai'n ystyried y mater unwaith eto pan fyddai'r gwaith dadansoddi wedi'i gwblhau.
- Cynigiodd y Gweinidog drafod y pwyntiau a godwyd gan Janet Ryder ynghylch cymeradwyaeth credyd atodol ar gyfer ardaloedd adnewyddu y tu allan i'r cyfarfod.
- Dywedodd na fyddai'r gwaith o ad-drefnu'r timau gweithredu cyffuriau ac alcohol yn amharu ar y gwaith rhagorol a wnaed hyd yma a dywedodd y byddai'n rhoi'r newydd diweddaraf yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf.
- Dywedodd y byddai'n rhoi'r newydd diweddaraf ynghylch Partneriaethau Atal Troseddu mewn adroddiad yn y dyfodol.
- Dywedodd y byddai'n cysylltu â'r Gweinidogion eraill i drafod problemau o ran atgasedd hiliol ac yn llunio cynllun gweithredu oherwydd ei fod yn effeithio ar bob rhan o'r gymdeithas. Ychwanegodd nad oedd wedi derbyn unrhyw geisiadau i ariannu mesurau i ddiogelu mannau addoli.
- O ran Cymunedau yn Gyntaf a'r wybodaeth y gofynnwyd amdani ynghylch y partneriaethau, dywedodd y byddai'n trafod â swyddogion faint o fanylder y byddai modd ei ddarparu'n hawdd. Cytunodd i ddarparu gwybodaeth ar gyfran yr arian a ddyrannwyd ar gyfer cyflogau a chostau gweinyddol.
- O ran y Mesur Trwyddedu, dywedodd y byddai ei swyddogion yn ymchwilio ymhellach i'w hynt ac yn rhoi adroddiad arno.
- Cytunodd i ystyried mater y codau post unwaith eto.
- Mewn cyfarfod diweddar o'r Cyngor Partneriaeth, dywedodd ei bod wedi cytuno â'r Comisiwn Archwilio ar brotocol Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ac y byddai'n rhoi'r

newydd diweddaraf amdano yn ôl y galw.

2.4 Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu a bragdy pwysig yn cael eu gwahodd i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Gofynnodd a oedd unrhyw awgrymiadau eraill ar gyfer cyflwyniadau yn y dyfodol. Awgrymodd Peter Law y byddai modd gwahodd Comisiwn Ffiniau Cymru oherwydd ei fod ar fin cychwyn ar adolygiad o ffiniau seneddol Cymru.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch ad-drefnu Gwasanaeth Prawf (De Cymru).
- Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu at Peter Law ynghylch Lwfansau Cynghorwyr Cymuned, gan gynnwys mater lwfansau cynghorwyr sir sydd hefyd yn aelodau o gynghorau tref neu gynghorau cymuned.
- Bydd y Gweinidog yn rhoi'r newydd diweddaraf i'r Pwyllgor maes o law ynghylch tâl ymadael i gynghorwyr sy'n ymddeol.
- Bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y Timau Troseddwyr Ifanc yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf.
- Bydd swyddogion yn ymchwilio i Gronfa Datblygu Swyddfa'r Post ac yn rhoi adroddiad arni.
- Bydd y Gweinidog yn darparu nodyn ar gyfer y Pwyllgor ynghylch swyddogaethau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol, a hynny pan ddaw'r ymarfer ymgynghori â'r awdurdodau lleol i ben.
- Bydd y Gweinidog yn darparu manylion y dyraniadau ar gyfer Cymeradwyaeth Credyd Atodol.
- Bydd y Gweinidog yn trafod â swyddogion pa wybodaeth y byddai modd ei darparu'n hawdd i'r Pwyllgor ynghylch partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf, manylion eu haelodaeth, ac, os yn bosibl, y patrymau presenoldeb.
- Cytunodd y Gweinidog i roi manylion am y gwariant ar gyflogau a gweinyddu o gyllideb Cymunedau yn Gyntaf.
- Yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf, bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch swyddogion diogelwch yn y gymuned.
- Bydd y Gweinidog yn cysylltu â'r Gweinidogion eraill i drafod ffyrdd o fynd i'r afael ag "Atgasedd Hiliol".
- Bydd y Gweinidog yn rhoi nodyn i Aelodau'r Pwyllgor ynghylch y Mesur Trwyddedu.
- Bydd y Gweinidog yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor ynghylch yr Agenda Cyffuriau ac Alcohol yn ei hadroddiad ysgrifenedig nesaf.
- Cytunodd y Gweinidog i ystyried mater y codau post unwaith eto.
- Mewn adroddiad ysgrifenedig yn y dyfodol, bydd y Gweinidog yn rhoi adroddiad ar y protocol y cytunwyd arno â'r Comisiwn Archwilio ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella.
- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gwahodd Undeb y Gweithwyr Cyfathrebu i siarad ynghylch Swyddfa'r Post, swyddi a'r Post Brenhinol.

- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gwahodd cynrychiolwyr o'r byd bragu i ddod gerbron y Pwyllgor.
- Bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn gwahodd Comisiwn Ffiniau Cymru (seneddol) i sôn am newidiadau posibl i'r ffiniau seneddol.

**<u>10.18am hyd 10.35am</u>**

**Eitem 3: Ystyried y Cod Canllawiau i awdurdodau lleol ar ddyraniadau a digartrefedd**

**LGH-01-03(p.2)**

1. Cyflwynodd y Gweinidog y papur a chofnododd ei bod yn ddiolchgar i swyddogion y Gyfarwyddiaeth Dai am yr holl waith a wnaed i baratoi'r Cod Canllawiau drafft ar gyfer yr awdurdodau lleol. Gwahoddodd yr Aelodau i roi sylwadau.
2. Dyma sylwadau'r Aelodau:

- Unodd yr Aelodau i ganmol y canllawiau gan ddweud y byddai'n hynod werthfawr i'r awdurdodau lleol.
- Tybiwyd ei bod yn hanfodol i bob awdurdod lleol gynnal adolygiad o lefel y digartrefedd yn eu hardal, a llunio strategaeth i fynd i'r afael ag ef.
- Mynegwyd pryder ynghylch nifer y categorïau blaenoriaeth a restrir ym Mhennod 13 a'r gobaith oedd na fyddai'r rhestr hirfaith yn gwanhau ystyr y term "blaenoriaeth". Nodwyd bod y rhestr yn sicrhau nad oedd unrhyw anghysondebau ac yn sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn gwybod sut i fynd i'r afael â rhai o'r grwpiau mwyaf bregus mewn ffordd gyson.
- Roeddynt yn awyddus i wybod sawl ymateb a oedd wedi dod i law hyd yma a beth oedd eu natur.
- Mae'n bwysig rhoi dewis o dai i ymgeiswyr, ond rhaid cydnabod bod hyn yn anodd o gofio bod prinder tai.
- Mae'n bwysig rhoi gwybod i grwpiau bregus, yn enwedig menywod mewn canolfannau lloches, bod modd iddynt ddewis.
- Ni chyfeiriwyd at ofynion y Ddeddf Plant ar dudalen 105 ynghylch ymgeiswyr â phlant, ac roedd hyn yn peri pryder mawr i'r Cadeirydd. Dywedodd ei bod yn hanfodol cadw at ofynion y Ddeddf ac y dylid cau unrhyw fylchau posibl o ran cadw llygad ar blant "a allai gael eu colli". Credai y dylai'r canllawiau adlewyrchu hyn.

1. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog:

- Roedd tri ymateb ar ddeg wedi dod i law hyd yma ac roedd y mwyafrif ohonynt yn ffafriol.
- Mae dewis yn fater pwysig ac efallai y dylid cynnal adolygiad 12 mis ar ôl i'r canllawiau ddod i rym, a hynny er mwyn canfod sut y mae'n cael ei roi ar waith. Ychwanegodd bod y Gyfarwyddiaeth Dai yn ystyried ar hyn o bryd yr anawsterau y mae pobl sy'n dioddef trais yn y cartref yn eu hwynebu o ran tai.
- Nodwyd y pwynt ynghylch plant a dywedodd y Gweinidog y byddai gofynion y Ddeddf Plant yn cael eu hystyried ac y byddai'r rhan honno o'r canllawiau'n cael ei chryfhau.
- Dywedodd John Bader fod anawsterau wedi codi o ran y cydbwysedd rhwng systemau gosod tai sy'n seiliedig ar angen a systemau sy'n seiliedig ar ddewis. Yn gyffredinol tybir bod systemau sy'n seiliedig ar angen wedi cyfrannu at broblemau sy'n ymwneud â thai cymdeithasol, er enghraifft pan ddefnyddir ardaloedd lle nad oes galw mawr am dai i ddarparu tai parhaol ar gyfer pobl ddigartref. Dywedodd ei bod yn bwysig cynnal astudiaethau parhaus i ystyried effaith unrhyw newid o ran polisi.
- Dywedodd y Gweinidog y byddai'r sylwadau a wnaed heddiw yn cael eu hystyried a dywedodd mai'r bwriad oedd trafod y canllawiau yn y cyfarfod llawn ar 25 Mawrth. Pan gâi'r canllawiau eu cyhoeddi, byddent ar gael ar ffurf dalennau rhydd.

**<u>10.35pm hyd 10.15pm</u>**

**Eitem 4: Adolygiad o'r Polisi ar Adfywio Cymunedol - Cynyddu Gallu: Adroddiad am y daith i Iwerddon i ganfod ffeithiau**

**LGH-02-03(p.3)**

1. Cyflwynodd y Cadeirydd y papur a baratowyd gan yr Athro Adamson yn sgil yr ymweliad llwyddiannus â Phartneriaeth Ballyfermot yn Nulyn i ganfod ffeithiau fel rhan o'r adolygiad polisi.
2. Siaradodd yr Aelodau a fu'n rhan o'r ymweliad yn frwdfrydig ynghylch y gwersi y byddai modd i Gymru eu dysgu oddi wrth y Bartneriaeth, gan ddweud ei bod yn amlwg bod y lefel leol a'r lefel genedlaethol yn cydweithio. Cafodd rhwystrau eu dymchwel i ganiatáu i'r strategaethau fynd rhagddynt. Nodwyd bod cyfleusterau gofal plant ar gael ym mhob canolfan a'u bod yn llwyddiant mawr. Roedd hwn yn faes a ddaeth i'r amlwg mewn tystiolaeth a dderbyniwyd yng Nghymru, a hynny fel maes y dylid mynd i'r afael ag ef.
3. Trafodwyd pwysigrwydd yr Undebau Credyd ac awgrymwyd y byddai modd i Gymru ddysgu llawer o'r ffordd y mae'r Gwyddelod yn mynd ati i sefydlu cyrff o'r fath. Nid oedd llawer o bobl yn gwybod beth oedd Undeb Credyd felly nid oedd modd manteisio'n llawn ar eu potensial.

4.4 Dywedodd y Cadeirydd ei bod wedi ysgrifennu ar ran y Pwyllgor i ddiolch i bawb a fu'n ymwneud â'r ymweliad.

**10.45am hyd 11.00am**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud.

**11.00am hyd 11.30am**

**Eitem 5: Cyflwyniad gan Ganolfan Sunpipe Cymru**

1. Estynnodd y Cadeirydd groeso i Mario Breeze a Phil Morgan o Ganolfan Sunpipe Cymru a dywedodd iddynt gael gwahoddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor am eu system oleuo ac awyru arloesol. Gofynnodd iddynt wneud eu cyflwyniad.
2. Roedd yr Aelodau wedi derbyn gwybodaeth ynghylch y cwmni a'r cynnyrch cyn y cyfarfod. Mae'r system Sunpipe yn ffordd chwyldroadol o ddod â golau dydd naturiol o'r to i mewn i adeiladau trwy bibell, a hynny er mwyn goleuo mannau nad yw golau dydd sy'n dod drwy ffenestri yn eu cyrraedd. Mae modd integreiddio'r cynnyrch i system oleuo drydanol adeiladau er mwyn arbed ynni. Mae'r cwmni hefyd yn ehangu er mwyn darparu system i gynhesu dwr â phwer yr haul a system ffotofoltaig. O ddefnyddio'r system ffotofoltaig, mae modd cynhyrchu trydan mewn panel a'i storio hyd nes bod ei angen mewn batrîs neu ei drosglwyddo i'r Grid Cenedlaethol. Cred y cwmni fod y diddordeb mewn ynni adnewyddadwy yn cynyddu ac y bydd yn dal i wneud hynny yn ystod y blynyddoedd nesaf.
3. Gofynnodd yr Aelodau faint yr oedd yn ei gostio i'w osod ac a oedd angen caniatâd cynllunio.
4. Dywedodd Phil Morgan ei bod yn costio rhyw £500 ar gyfartaledd i osod un Sunpipe. Nid oedd angen caniatâd cynllunio fel arfer, oni bai fod yr adeilad yn Adeilad Rhestredig neu ei fod mewn ardal gadwraeth.

5.5 Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu cyflwyniad.

**11.30am hyd 12.15pm**

**Eitem 6: Cyflwyniad oddi wrth Bwll Glo'r Twr**

6.1 Estynodd y Cadeirydd groeso i Phil White a Graham Lewis o Bwll Glo'r Twr ac i Jane Hegginbotham o'r Gymdeithas Tanwydd Solet. Dywedodd wrth y Pwyllgor eu bod wedi'u gwahodd i ddangos sut y maent yn cyfrannu at y gwaith o fynd i'r afael â thlodi tanwydd. Gofynnodd iddynt roi'u cyflwyniad.

2. Roedd yr Aelodau wedi derbyn papur briffio yn amlinellu manteision economaidd,

amgylcheddol a chymdeithasol glo cyn y cyfarfod a chawsant becynnau gwybodaeth manwl oddi wrth Bwll Glo'r Twr a'r Gymdeithas Tanwydd Solet. Pwysleisiodd Jane Hegginbotham y pwyntiau a ganlyn:

- Dylai fod modd i bobl ddewis y dull gwresogi y mae arnynt ei eisiau i wresogi'u cartrefi a dylid rhoi gwybod iddynt bod modd gwella systemau tanwydd solet i beri iddynt fod yn fwy effeithlon o ran ynni. Ychwanegodd bod manteision iechyd yn deillio o system tanwydd solet oherwydd bod yn rhaid awyru adeiladau. Dywedodd bod masnachwyr glo yn chwarae rôl bwysig ym mywyd cymunedau a'u bod yn darparu gwasanaeth gwerthfawr. Mae'n haws cyllido ar gyfer glo oherwydd bod modd ei brynu bob wythnos, yn hytrach na phrynu cyflenwad mawr o olew neu dalu ôl-daliadau am nwy neu drydan.
- Cafwyd trafodaeth ynghylch mathau eraill o danwydd, megis peledi pren, ond tybiwyd bod llawer o waith i'w wneud cyn i'r rheini fod yn ffynhonnell arall o ynni a fydd ar gael i bawb.
- Wrth grynhoi, dywedodd Phil White fod Pwll Glo'r Twr yn gwmni sy'n edrych i'r dyfodol ac sydd wedi ymrwymo i wella'i ddulliau a lleihau gwastraff glo, ynghyd ag atgyfnerthu'i berthynas â'r gymuned.

2. Dyma sylwadau'r Aelodau:

- Cytunodd yr Aelodau fod glo yn faes pwysig ac na ddylid ei anghofio wrth drafod ffynonellau tanwydd. Nodwyd bod Pwll Glo'r Twr yn fawr ei fri yng Nghymru.
- Awgrymwyd y dylid ystyried cynnal cynhadledd, wedi'i noddi gan y Cynulliad, i hyrwyddo glo ac i ddatblygu cynhyrchion eraill sy'n seiliedig ar lo. Tybiwyd bod glo wedi'i anghofio fel ffynhonnell ynni ac y byddai cyfle i'w farchnata yn ddefnyddiol.
- Gwnaeth y gwaith ymchwil a datblygu yr oedd Pwll Glo'r Twr yn ei wneud gryn argraff ar yr Aelodau.
- Mae angen mynd ati i addysgu pobl unwaith eto nad yw glo yn danwydd brwnt.

2. Wrth ymateb, dywedodd y Gweinidog fod y cyflwyniad wedi codi nifer o faterion sydd y tu allan i'w chylch gwaith, ac y byddai'n tynnu sylw Andrew Davies, y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, atynt. Dywedodd unwaith eto ei bod yn ystyried defnyddio tanwydd solet yn y Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref. Yn sgil ei chyfarfod â Tyrone O'Sullivan, ysgrifennodd at Syr Harry Jones o Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i awgrymu bod y Gymdeithas yn agor trafodaethau â Phwll Glo'r Twr i weld sut y gallai awdurdodau lleol ddefnyddio glo mewn adeiladau cyhoeddus.

6.5 Diolchodd y Cadeirydd iddynt am ddod i gyfarfod y Pwyllgor.

**Pwynt Gweithredu**

- Bydd y Gweinidog yn trafod â'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd y posibilrwydd y gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru gefnogi cynhadledd ar bolisi ynni, gan gynnwys manteision tanwydd solet.

**12.15pm hyd 12.25pm**

**Eitem 7: Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau**

1. **Estynnodd y Cadeirydd groeso i Debra Carter o Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau . Rhoddodd adroddiad am y gwasanaethau newydd y mae Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn eu cynnig, a hynny yn sgil derbyn awgrym yr Adolygiad o Weithdrefnau'r Cynulliad.**
2. **Croesawodd yr Aelodau y gwasanaeth gwell gan ddweud ei fod eisoes yn cyfrannu'n fawr at y cyfleusterau ymchwil sydd ar gael iddynt.**
3. Rhoddodd y Cadeirydd ddiolch i Debra Carter am y wybodaeth a roddodd, a dywedodd y byddai'n rhoi adborth yng nghyfarfod nesaf Panel y Cadeiryddion.

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2003